

# Llais Llandyrnog Voice

 [llandyrnognews@gmail.com](mailto:llandyrnognews@gmail.com)  [@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Tachwedd 2020 – Cyfrol 6 – Rhifyn 2

Mae mynd i'r ysgol yn bleser pur!



*Diolch o galon i Mr Monteiro a'r staff am eu gwaith caled mewn adeg hynod anodd.*

**Diolch o galon unwaith eto i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn ac am y cyfraniadau ariannol hael tuag at gynnal ein cylchgrawn.**



# Pytiau newyddion y pentre

Croeso cynnes, er braidd yn hwyr, i Gina Johnson sydd wedi dod i fyw i Faes Tyrnog. Gobeitho’i bod hi wedi setlo yn ein plith.

Cydymdeimlwn â Clwyd Hughes, Fferm Llangwyfan – bu farw ei frawd, Gwynn Hughes Fferm Brwcws, Dinbych.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Brian Locking, Aberchwiler. Symudodd Brian i Landyrnog i ddechrau ar ôl iddo ymddeol fel cerddor. Roedd yn chwarae gitâr fas yn y grŵp poblogaidd yn yr 1960au, *The Shadows*. Treuliodd gyfnod yn aros yn Clwyd Bank, a byddai’n chwarae gitâr yn y garej bren, gyda Den George, y perchennog, yn drymio. O, am fod yn bry ar y wal!

Llongyfarchiadau i Tomos Davies, Hafod y Bryn a phob hwyl iddo yn ei swydd newydd fel syrfëwr siartredig efo cwmni Cooke & Arkwright. Bydd yn rhannu ei amser rhwng swyddfeydd Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Willy Plumb ac i Wendy Grey Lloyd ar ôl i’r ddau dreulio cyfnod yn yr ysbyty.

Dymuna Aeron a Menna ddiolch yn fawr iawn am y holl gardiau rhoddion ac anrhegion ar achlysur dathlu eu pen blwydd Priodas Aur.

Gwelwyd wyneb cyfarwydd yn Llangwyfan ar ddechrau’r mis – roedd Sean Fletcher yn recordio cyfres newydd o chwe rhaglen o’r enw *Wonders of the Border*, sy’n dilyn ei gyfres *Wonders of the Coast*. Ynddi mae’n cerdded llwybr Clawdd Offa. Yn y llun gyda Sean mae Zoe Henderson o Ruthin, ac roedd Bethan Jones o Landyrnog hefyd gyda nhw ar eu taith.

Mae’n bleser rhoi gwybod i chi fod dros 10,000 o bobl wedi arwyddo deiseb Joe Hinchcliffe. Creodd Joe y ddeiseb i goffáu ei ffrind gorau, Olivia Alkir, a laddwyd mewn damwain car y llynedd. Mae’n galw am osod ‘bocs du’ yng ngheir gyrwyr sydd newydd basio’u prawf ac am yrrwr profiadol i deithio gyda’r gyrwyr newydd am y flwyddyn gynta. Mae’r ddeiseb i’w gweld ar [petition.parliament.uk/petitions/333041](http://petition.parliament.uk/petitions/333041).



## Blue Hand Mowers

Repair and servicing of all garden machinery:

Lawn mowers and lawn tractors

Chain saws

Hedge cutters

Strimmers

Disc cutters

Quad bikes

Leaf blowers

Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on ‘Blue Hand Corner’ or find us on Google

[www.bluehandmowers.co.uk](http://www.bluehandmowers.co.uk)

[enquiries@bluehandmowers.co.uk](mailto:enquiries@bluehandmowers.co.uk)

☎ 0775 20 35 462

**Os hoffech gefnogi apêl y Lleng  
Brydeinig drwy brynu pabi, mae  
blwch casglu yn Swyddfa’r Post.**



## Oriau agor Swyddfa’r Post

Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener

9am–12pm, 3pm–5pm

Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30

**01824 790310**

# Yr hogyn a'i degan

Dyma gyfaddefiad i chi – dwi wrth fy modd gyda'r gyfres deledu, *Outback Truckers*. Rwy wedi rhannu cab â Joanna Atkins sawl gwaith (yn fy nychymyg, wrth gwrs!) ar ei theithiau 3000km, 34-awr ar draws y gwyllt yn Awstralia, gan osgoi cangarw, gwasgu heibio lorïau anferth eraill, croesi afonydd yn eu llawn llif gan osgoi'r crocodeilod. Gwaed, chwys a dagrau – ar ôl gwylio pennod o'r gyfres, rwy wedi ymlâdd.

Ta waeth, rhaid 'mod i wedi sôn rywbryd y byddwn i wrth fy modd yn cael cyfle i yrru lori anferth. Roeddwn yn gegrwth pan roddodd Lisa, ein merch hynaf, focs bach coch taclus yn anrheg Nadolig – tocyn a fyddai'n fy ngalluogi i yrru lori. Wel, dyna ni!

Wrth gwrs, yn anffodus daeth y cyfnod clo ym mis Mawrth – pob sioe wedi'i ganslo, dim teithiau tractor, dim ffair stêm, dim ocsiynau, dim byd o gwbl – dim ond gwaith. Ta waeth, roedd llychyn o obaith yn y bocs bach coch – fy nhocyn teithio. Cyn gynted ag y bydd y cyfnod clo'n dod i ben, i ffwrdd â fi.

Ac i ffwrdd â fi, yn gynnwys un bore ym mis Medi. Roeddwn yn mynd i Faes Awyr Tockwith, ger dinas Efrog – dros ddwy awr mewn car.

Roedd y cofrestru'n ddigon hawdd. 'Ga i weld eich trwydded yrru, Mr Davies?' gofynnodd merch ifanc i fi. 'Cewch, wrth gwrs', atebais. Ond roedd agor fy hen fath o drwydded yrru, a oedd yn debycach i fap OS na thrwydded yrru, yn gryn embaras, ac mae'n siŵr fod pwyntiau arni ers cyn i'r ferch hon gael ei geni.

Gan synhwyro ei bod hi'n siarad â rhywun a oedd wedi treulio mwy o amser ar y ddaear yma na sêl DFS, gofynnodd a oeddwn i wedi gyrru lori o'r blaen. 'Ydw', meddwn i, 'Un stêm'. Dim ymateb o gwbl – proffesiynol iawn, meddyliais.

Cefais fy nghyflwyno i fy hyfforddwr, Josh, ac roedden ni'n ffrindiau mawr o'r cychwyn cynta. Roedd yn dod o Gasnewydd ac yn gymeriad bywiog iawn. Mae'n siŵr ei fod yn ceisio tawelu fy nerfau.

'Wyt ti wedi bacio trelar o'r blaen?' gofynnodd. Dywedais wrtho fy mod i wedi bacio allan pan ges i fy ngeni a 'mod i'n gwisgo fy nghap Ifor Williams. Oeddwn i'n gallu bacio? A oes balconi gan y pab, meddyliais, nes i ni fynd rownd y gornel ac i mi weld fy ngherbyd am yr awr neu ddwy nesa. A ydych chi erioed wedi cael y teimlad y dylech chi fod wedi cau'ch ceg?

Gwnaeth y cludwr ceir Renault, 36 tonnall a chanddo 16 o olwynion a oedd yn disgwyl amdana i argraff fawr arna i. Ac yn well na hynny, roedd gen i faes awyr cyfan i'w gyrru hi ynddo.

Dim ond munud roedd ei angen i esbonio cynnwys y cab. Roedd yn lori awtomatig, felly dim ond dau bedal (gallech ei gyrru ag un goes, os ydy hynny'n gysur i chi) a dim ond dwy ffon – un ag F ac R (*forward* a *reverse*, wrth reswm) a D ac N (*drive* a *neutral*) felly chymerodd hi fawr ddim amser i fi ddod i arfer â hynny.

Doedd y brêc llaw fawr ddim mwy na 3" ac roedd yn ddarn o gelfyddyd pur (rwy'n poeni 'mod i wedi disgyn mewn cariad â brêc llaw?!). Beth bynnag, pan ges i'r cyfarwyddyd i'w ollwng, dyma 16 olwyn yn hisian fel neidr – ac roeddwn i'n barod i gychwyn!

Doedd dim ond angen pwyso'n ysgafn ar y sbardun ac i ffwrdd â ni – a'r lori'n llithro'n ddiymdrech drwy'r gêrs awtomatig nes i ni gyrraedd cyflymder go lew. Ond, roedd côns o 'mlaen i, gyda bylchau rhyngddyn nhw ac er mawr ddychryn i fi, roeddwn i fod i nadreddu rhyngddyn nhw, heb eu gwasgu. Mae'n siŵr mai pwrpas yr ymarfer oedd profi ymwybyddiaeth ofodol y gyrrwr – mae drychau ym mhobman ar y lorïau hyn, a chredwch chi fi, mae mawr eu hangen nhw!

Ar ôl llwyddo i wneud y dasg yn o lew, dywedodd wrtha i am droi a mynd yn ôl i'r man cychwyn, wedyn aros. Roedd bae dadlwytho wedi'i chreu a bacio i mewn iddo oedd y dasg nesa. 'Weli di'r côns acw? Lorïau ydyn nhw – ac mae'n rhaid i ti barcio'n berffaith yn y canol rhyngddyn nhw.'

# Yr hogyn a'i degan: parhad

Yr unig beth rwy wedi'i feistrolï'n o lew yw bacio fy nhrelar Ifor Williams a'r Land Rover i'r gilfach lwytho ym Mart Rhuthun. Gall hyn godi embaras mawr arnoch, yn enwedig pan fydd cynulleidfa'n gwylïo, ond dyma godi fy sgiliau bacio yn uwch eto. Ta waeth, anadlu'n ddwfn, cofio'r drefn – botwm ar R, Botwm ar D, gollwng y brêc llaw (hisian eto), edrych ym mhob drych, ac i ffwrdd â fi. Ddylwn i ddim fy nghanmol fy hun, ond roedd y symudiad yn berffaith, a'r lori yn union yng nghanol y gilfach lwytho.

Ar ôl hynny, ces i hwyl yn mynd ar dipyn o gyflymder i lawr y rhedfa (cofiwch fy mod i ar faes awyr!). Mae'n amlwg bod cyflymder y lorïau hyn wedi'i gyfyngu, ond mae gwrando ar injan 400hp, 12-litr yn rhuo fel llew yn bleser pur. Mae'r rhedfa nesaf at drac rasio ac roedd pobl yno'n chwyrliïo o gwmpas mewn Lamborghinis a Porsches, mae'n siŵr dros 150mya ar y darn syth. Ond wyddoch chi, roeddwn i'n berffaith fodlon – yn fy nychymyg roeddwn ar y ffordd i Kununurra, yng nghwmni'r hyfryd Joanna, yn ceisio osgoi'r cangarwod.

Felly beth ddysgais i o'r profiad yma? 'Doedd e ddim yn gyfeillgar iawn i'r amgylchedd, nag oedd?' clywaf rai ohonoch chi'n dweud. Bydd eraill yn gofyn 'A oedd hi'n daith hanfodol?'. Mae'n ddrwg gen i, yr unig esboniad neu ymddiheuriad y gallaf ei gynnig yw – roedd yn rhaid i mi ei wneud. Cofiwch fod bron bopeth yr ydym yn ei gyffwrdd, ei fwyta neu ei yfed wedi bod mewn lori. Rŵan, dwi'n deall na ddylai'r rheini ohonon ni sy'n gyrru ceir dorri ar eu traws yn sydyn, gan wneud iddyn nhw frecio'n sydyn. Y peth pwysicaf dwi wedi'i ddysgu yw: rhowch ddigon o le iddyn nhw a chodwch eich bawd arnyn nhw – maen nhw'n arwyr!

Pob hwyl yn y lori,  
*Bryn Davies*

# Apêl y Nadolig

Mae grŵp prysur iawn o bobl yn Ninbych wedi bod yn gweithio'n galed i ddarparu nwyddau i bobl ddigartref yn Wrecsam. Maen nhw'n apelio am focsys esgidiau i ddynion, merched ac oedolion ifanc, i'w rhoi iddyn nhw dros y Nadolig. Mae'n siŵr y bydd pobl hael Llandyrnog yn ymateb yn wych unwaith eto ac yn cefnogi'r achos ardderchog hwn. Gallwch adael eich bocs yn ystafell waelod Neuadd y Pentre, dydd Sadwrn 5 Rhagfyr, 10am–1pm. Bydd canllawiau iechyd a diogelwch COVID-19 yn cael eu dilyn a gofynnir i chi lapio'r bocsys mewn bagiau plastig fel bod modd eu glanhau'n drylwyr.

Dyma rhai awgrymiadau ar gyfer yr hyn y gallech ei roi yn y bocsys (byddai'r trefnwyr yn gwerthfawrogi bocsys bwyd yn unig hefyd).

- ♦ Nwyddau ymolchi ac ati: past a brwsh dannedd, sebon cawod a siampŵ, *deodorant*, nwyddau siafio, weips wyneb, brwsh gwallt neu grib, nwyddau mislif ar gyfer bocsys i ferched, *moisturiser*.
- ♦ Dillad: het, sgarff, menig, sanau cynnes, belt, côt law/*poncho*, dillad isaf.
- ♦ Bwyd: bariau bach o siocled, melysion, bisgedi, bwyd mewn tun (sy'n agor wrth dynnu'r cylch), caniau pop. *Sachets* diodydd (coffi, siocled poeth). *Sachets* bwyd (cawl, *mugshots*).
- ♦ Eitemau eraill: bagiau *ziplock*; llyfr nodiadau, pen a phensil; tortsh weindio; cyllyll, ffyr a llwyau.

**Peidiwch â rhoi alcohol nac arian, os gwelwch yn dda**

## Aelodau'r Pwyllgor:

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler, Jack Crowther, Bryn Davies (tanysgrifiadau a hysbysebion), Ann ac Iestyn Jones Evans (cyfieithwyr), Anne Rowley-Williams, Rhian Jones, Margaret a Rod Williams, Sian Gwyn-Ifan (cyfieithydd).

**Anfonwch eich newyddion a'ch erthyglau at [llandyrnognews@gmail.com](mailto:llandyrnognews@gmail.com)**

# Gair gan y Rheithor

Unwaith eto, rydym yng nghanol cyfnod clo cenedlaethol; rhaid i ni aros gartre a theithio ddim ond os oes rhaid. Rhaid i addoldai fod ar gau dros y cyfnod. I nifer, mae'r 'cyfnod clo dros dro' hwn yn teimlo'n anoddach na'r un diwethaf. Ond rydym yn gwybod ei bod yn rhaid i ni gyd chwarae'n rhan a helpu i warchod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r rheini o'n cwmpas.

Rydym wedi gorfod newid cynlluniau a digwyddiadau arferol wedi'u canslo. Yn anffodus iawn, mae hyn yn cynnwys ein gwasanaeth arferol ar Sul y Cofio. Ni fydd yr un gwasanaeth eleni, mae'n ddrwg gennym ddweud. Nid yw hyn yn golygu y bydd y meirw wedi'u hanghofio – rydym yn methu dod at ein gilydd, ond gallwn goffáu drwy gael dau funud o dawelwch gartref. Gallech sefyll ar stepen eich drws am 11yb. fel arwydd o barch.

Wrth i ni gofio ac anrhydeddu pawb sydd wedi rhoi eu bywydau dros heddwch a rhyddid, rydym yn byw yn y gobaith na fydd rhyfel yn ein byd byth eto. Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, meddai Iesu. Mae tangnefeddwyr yn gryf ac yn ddoeth, yn fodlon bod yn ddewr a chodi eu llais dros heddwch. Maent yn ceisio cadw trafodaethau ar agor ac yn ymdrechu i greu heddwch parhaol. Ac yn Nuw yr ydym yn ymddiried ac yn gobeithio, gan gredu mewn cyfnod pan: 'Fydd gwledydd ddim yn ymladd ei gilydd, nac yn hyfforddi milwyr i fynd i ryfel'. Micha 4, ad. 3.

Clywyd stori am ddyn ifanc a oedd yn marw yn y ffosydd. Arhosodd ei ffrind gydag o tan y diwedd. Wrth iddo ddynesu at y diwedd, gofynnodd y ffrind iddo, 'A oes gen ti neges i'r bobl gartref?' Atebodd y dyn ifanc, 'Pan ei di adref, chwilia am fy athro Ysgol Sul a dywed wrtho bod ei wersi am Iesu yn fy helpu i farw heddiw.'

Ar ddiwedd y rhyfel, cadwodd y dyn ifanc ei addewid i'w ffrind ac aeth gartref a chafodd hyd i'r athro ysgol Sul. Rhoddodd y dyn ifanc y neges i'r athro. Gydag dagrau yn ei lygaid, galarodd y dyn am y milwr ifanc, yna atebodd, 'Mi wnes i roi'r gorau i fod yn athro ysgol Sul

flynyddoedd yn ôl oherwydd 'mod i'n teimlo nad oeddwn i'n gwneud unrhyw wahaniaeth.'

*Dduw hollalluog a thragwyddol, clyw ein gweddïau a'n diolch am bawb a gofiwn heddiw; gwrandawa'n gweddïau er dy gariad di; a boed i ni ddod at dy lawenydd bythol trwyddynt; trwy Iesu Grist ein harglwydd, Amen.*

## ***Rhag i ni Anghofio***

### **Gair o ddiolch**

Diolch o galon i bawb sydd wedi gweithio mor galed i gadw'n mynwentydd yn dwt a thaclus. Mae hon wedi bod yn flwyddyn anodd iawn ac yn ystod y cyfnod clo roedd y gwirfoddolwyr yn methu torri'r glaswellt fel arfer oherwydd cyfyngiadau'r Llywodraeth. Ond diolch i waith David Weyman a'i dîm yn torri'r glaswellt am y tro cyntaf ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben, roedd y fynwent yn daclus yn fuan unwaith eto. Ni fyddwn yn gallu cael 'gwledd y torwyr glaswellt' eleni, h.y. cinio i ddiolch iddyn nhw yn y Ceffyl Gwyn, ond rydym yn wirioneddol ddiolchgar am eu holl waith caled. Diolch!

*Val Rowlands*

## **J & G**

# **TYRE SERVICES**



**CAR - TRUCK -  
FARM TYRE SPECIALISTS  
BATTERIES & EXHAUSTS**

**Unit 1  
Dyffryn Trading Estate  
Rhyl Road  
Denbigh  
LL16 5SJ**

**01745 817676  
07775 717602**

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae cynrychiolwyr grwpiau'r ysgol wedi'u hethol. Bydd cyngor yr ysgol, y pwyllgor ysgolion iach, y pwyllgor eco-ysgolion a'r Criw Cymraeg yn cyfarfod i drafod ffyrdd i wneud newidiadau cadarnhaol yn y meysydd.

Mae'r plant yn ffodus iawn yn cael clybiau ar ôl ysgol – clwb celf gyda Mrs Lyon, ioga gyda Miss Birkett, a pêl-droed gyda Mr Jones.

Y Dosbarth Iau: Mae pawb yn y Dosbarth Iau yn cael gwaith cartref mathemateg bob wythnos – her pêl-droed Cynghrair y Pencampwyr. Rio Ferdinand sy'n trefnu hyn. Pan fydd y plant wedi gorffen yr her, byddan nhw'n ennill cerdyn chwaraewr pêl-droed i wneud casgliad o gardiau i ffurfio tîm. Y nod yw casglu pob un. Mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu technegau gwahanol i fesur coeden. Ar hyn o bryd, y thema yw planhigion o gwmpas y byd. Maen nhw wedi bod yn datrys dirgelwch y Goeden Koa yn mynd o Hawäi i Ynys Reunion ac yn dysgu pam mae coed yn tyfu mor dal mewn coedwig.

Yn eu gwersi meddylgarwch, mae'r plant wedi bod yn darllen y stori *Bloom* ac yn dysgu i ddiolch am blanhigion.

Dosbarth y Babanod: Mae'r plant wedi bod yn defnyddio deunyddiau naturiol yr hydref i ymarfer eu synau y tu allan.

Maen nhw hefyd wedi bod yn gofyn y cwestiwn, 'Pam dydy pryfed cop ddim yn mynd yn sownd yn eu gwe eu hunain?' ac wedi bod yn defnyddio'r llecyn gwyh y tu allan y mae Mr Jones wedi ei adeiladu dros yr haf.

Gan fod y plant yn methu dathlu Calan Gaeaf eleni, ar y dydd Gwener cyn gwyliau'r hanner tymor, cafodd y plant ddod yn eu gwisgoedd Calan Gaeaf i'r ysgol a hel pethau da o gwmpas yr ystafelloedd dosbarth.

Roedd noson pwmpenni yn llawer o hwyl. Codwyd dros £190, swm mawr sy'n golygu llawer i ysgol fach fel Bryn Clwyd. Diolch i Tesco am gyfrannu'r pwmpenni ac i Miss Ruth

a Ffrindiau'r Ysgol am drefnu digwyddiad oedd yn gymaint o hwyl.

I gloi, gair gan Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Owen Conry:

*'Mae athrawon a'r staff cynorthwyol yn Ysgol Bryn Clwyd...wedi gwneud gwaith gwych yn gwneud y diwrnod ysgol yn ddiwrnod normal ac yn rhoi cysur i'n plant yn yr adeg ddigynsail hon.'*

## Wyneb a llais cyfarwydd

Mae Manon Elis, gynt o Groes Efa Bach, yn actores adnabyddus yng Nghymru. Ond erbyn hyn, mae hi wedi dargyfeirio ac wedi agor siop yng Nghaernarfon, yn gwerthu eitemau *vintage* a *retro* yn bennaf, ynghyd â chynhyrchion modern Cymreig.

Ddiwedd mis Hydref, dechreuodd cyfres fer o dair rhaglen ar S4C, *Agor y Clo*, gyda Manon yn eu cyflwyno. Testun y rhaglenni oedd trysorau personol a'r straeon diddorol sydd iddyn nhw.

Mae'r gyfres i'w gweld ar alw ar S4C Clic, iPlayer ac ar blatfformau eraill.

Yn y cyfamser, ar Radio Cymru darlledwyd drama mewn dwy ran – *Lleisiau'r Môr* gan Manon Eames. Mae'n seiliedig ar ei gwaith ar gyfer Archif Menywod Cymru, yn ymchwilio i'r rhan a oedd gan ferched yn niwydiant y môr, diwydiant sydd mor bwysig yn hanes Cymru.

Mae'r ddrama ei hun yn addasiad o straeon a dyddiaduron pedair gwraig capteiniaid llong ac yn rhoi cip i ni ar eu profiadau o fod ar y môr.

Mae Non Haf, gynt o Hafod y Bryn, wyneb cyfarwydd arall ar y llwyfan ac ar deledu yng Nghymru, yn un o'r lleisiau.

Gallwch wrando ar *Lleisiau'r Môr* ar wefan BBC Sounds.

# Nodiadau o Blas Ashpool

Cyfnod clo arall, y clociau'n mynd yn ôl a'r tywydd yn mynd yn fwy diflas – does dim rhyfedd ein bod ni'n dechrau teimlo'n ddigalon yr adeg hon o'r flwyddyn. Felly fe ddechreuais i feddwl y diwrnod o'r blaen am sut i feddwl yn gadarnhaol. Y cwestiwn cyntaf a ofynnais i mi fy hun oedd – beth wyt ti'n hoffi'i wneud pan rwyf ti'n teimlo fel petaet ti'n methu rheoli dy fywyd? Yr ateb – gwneud rhestr. Wrth gwrs!

Felly dyma fy 'rhestr hapusrwydd' am y misoedd nesa (heb fod mewn unrhyw drefn arbennig). Mae'n ddigon posib fy mod wedi cynnwys ychydig o'r rhain eisoes, felly maddeuwch i mi os ydw i'n ailadrodd.

1. Pan fyddwch yn deffro a chyn i chi fynd i'r gwely (neu, a dweud y gwir, unrhyw bryd) meddyliwch am bopeth rydych chi'n ddiolchgar amdano.
2. Sylwch go iawn ar y prydfferthwch o'n cwmpas.
3. Gofalwch eich bod yn cael digon o faeth o'r

## Townsend Supplies

**Townsend, Denbigh LL16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural  
accessories & building supplies**

- ☐ Tanalised timber
- ☐ Concrete posts
- ☐ Panel fencing
- ☐ Water pipe fittings
- ☐ Water tanks
- ☐ Sand
- ☐ Cement
- ☐ Concrete blocks

bwyd gorau posib. Mae digonedd o ryseitiau  
hyfryd ar gael i'ch cynhesu, i rai sy'n bwyta cig  
ac i lysieuwyr, felly ewch ati i goginio.

4. Gwnewch ymdrech i gysylltu â phawb yn eich llyfr cyfeiriadau/rhifau ffôn rydych chi heb glywed ganddyn nhw ers talwm.
5. Peidiwch â darllen gormod ar bapurau newydd a gwylio gormod o raglenni newyddion. Dewch i ni roi sylw i'r holl newyddion da sy'n dal i fodoli yn y byd – dydyn nhw ddim yn cael hanner digon o sylw.
6. Gwnewch gymaint o ymarfer corff ag sy'n bosib (y tu allan, gorau oll).
7. Byddwch yn un sy'n pelydru yn hytrach nag un sy'n dreth ar bobl. Ceisiwch roi gwres ac egni i'r rheini sydd o'ch cwmpas.
8. Chwerthwch, chwerthwch, a chwerthwch eto.
9. Chwiliwch am gwmni plant ac anifeiliaid (os nad oes gennych chi gyflenwad o'r rhain, ceisiwch fenthgy rhai!). Maen nhw bob amser ar ochr hapus bywyd.
10. Cadwch yn brysur – gall eich bywyd fod yn llawn gweithgareddau, hyd yn oed y rhai syml yn ein cartrefi ac o'n cwmpas. Cofiwch gynnwys bob un sy'n eich gwneud chi'n hapus.

Rydw i eisoes wedi gwneud rhif 2 y bore 'ma – gwelais sawl crëyr ger yr afon.

Rwy'n gobeithio bod gennych chi bob un eich 'rhestr hapusrwydd' a'ch bod yn gallu cael gwared ar ychydig o ddigalondid y gaeaf. Ac os ydych yn un o'r rhai ffodus sydd wrth eu boddau â'r gaeaf, rhannwch eich geiriau bach o gyngor â ni drwy'r *Llais*. Diolch.

I gloi, dyma ddyfyniad a anfonwyd ataf yn ddiweddar gan ffrind. Roedd ar ddrws ei westy yn ystod ymweliad ag Ynysoedd Sili – mae'n berffaith ar gyfer yr adeg od hon:

**'Nid yw pob storm yn tarfu ar eich bywyd,  
Daw ambell un i baratoi llwybr i chi!'**

Tan y tro nesa, byddwch yn ddedwydd ac os cewch chi gyfle, pob hwyl ar y garddio hefyd.

*Fiona Bell*



# Gair gan ein Cynghorydd Sir

Petaech chi wedi gofyn i mi'r adeg hon y llynedd beth fyddwn i'n ei wneud, fe fyddwn i'n sôn wrthoch chi am y manau yn Fietnam roedd Hilary a mi'n dymuno ymweld â nhw, y manau fethon ni eu gweld yn 2019. Byddwn hefyd wedi bod yn teithio trwy Cambodia a Gwlad Thai gan fwriadu rhoi syrpreis i Nok, mam Pym. Ond byddwn i wedi bod yn hollol anghywir.

Heddiw rwy wedi bod yn helpu busnesau yn fy ardal i wneud cais am grantiau o'r gronfa cadernid economaidd i'w helpu i ddod trwy'r pwysau gwaethaf ar fusnesau yn ystod ein hoes. Rwy'n gobeithio y bydd eu ceisiadau nhw i gyd yn llwyddiannus. Mae hi mor bwysig eich bod chi'n ystyried anghenion y busnesau ac yn eu cefnogi hyd eithaf eich gallu.

Dros yr wythnosau diwethaf, rwy wedi bod mewn sawl cyfarfod cyngor ar-lein – yn gyfarfod misol llawn, pwyllgorau cynllunio, cyfarfodydd aelodau ardal a'n cyfarfodydd cyngor cymuned hynod bwysig. Diolch yn arbennig i'r clerc, Bryn Davies, am ei ymroddiad i'n cymuned.

28 Hydref yw'r dyddiad wrth i mi ysgrifennu hwn; dwi'n methu rhagweld beth fydd yn ein disgwyl pan fyddwch chi'n darllen hwn. Mae'r cyfnod clo dros dro yn dod i ben 9 Tachwedd, ond rwy'n hollol siŵr y bydd cyfyngiadau eraill ar waith i helpu i reoli'r COVID-19 felltith.

Ond rwy'n hollol sicr, os ydych chi'n byw yn Ward Llandyrnog, mae'n debygol iawn eich bod yn un o'r manau gorau yn y byd ac yn gwybod y bydd rhywun yn fodlon eich helpu chi. Efallai y bydd yn rhaid i chi ofyn am help, ond bydd y rhan fwyaf yn fwy na pharod i'ch helpu.

Mae'n debyg nad oes fawr ddim byd yn digwydd ynghylch safle Arla. Rwy wedi bod yn cysylltu â'r perchnogion yn gyson a thîm datblygu economaidd Sir Ddinbych gan obeithio y bydd rhywun yn gallu'i ddefnyddio at bwrpas arall.

Mae'r datblygiad adeiladu ger Maes Llan yn dod yn ei flaen yn araf, a phan fydd yn digwydd, bydd swm sylweddol yn dod gan y datblygu fel arian cynhaliaeth i helpu i uwch-raddio offer chwarae'r plant yng Nghae Nant.

Mae nosweithiau tywyll ac oer o'n blaenau – eto, a wnewch chi ofalu am eich cymdogion a'r rhai bregus sydd gerllaw? Ond gofawch eich bod yn eich gwarchod eich hun, yn cadw'ch pellter ac yn dilyn y canllawiau.

Os oes angen i chi gysylltu â mi, mae fy manylion isod.

Diolch

Y Cyngorydd Sir Merfyn Parry

## GLYN EVANS AUTOCLINIC

### Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy  
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I  
LAWR

01745 815141

07808970364

## Cyngor Sir Ddinbych

### Merfyn Parry



Manylion cyswllt:

Ffôn symudol: 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook



# Darllen yn well i blant

Mae cynllun newydd wedi'i lansio yng Nghymru i helpu plant i ddeall a rheoli eu hiechyd meddwl a'u lles drwy ddarllen. Mae dros filiwn o rieni yn credu y gallai cymorth proffesiynol fod yn llesol i'w plant – mae gan un ym mhob deg o blant Cymru sydd rhwng 5 ac 16 oed broblem iechyd meddwl, ac mae gan lawer mwy broblemau ymddygiad.

Yr elusen Asiantaeth Ddarllen sy'n cyflwyno'r rhaglen yng Nghymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'n cynnwys casgliad o lyfrau ac adnoddau ategol a fydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyhoeddwyd y rhestr ddarllen mewn ymateb i'r galw cynyddol am wybodaeth a chynghor i helpu plant i ddeall a rheoli eu hiechyd meddwl a'u lles.

Mae'r llyfrau ar y rhestr yn trafod pynciau fel gorbryder a galar, bwllo a diogelwch ar y we, a sut i ddelio â digwyddiadau yn y newyddion. Mae'r llyfrau hefyd yn archwilio sut i fyw yn well gyda chyflyrau fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD), Anhwylder Sbectrwum Awtistiaeth (ASD), dyslecsia, Anhwylder Gorfodaeth Obsesiynol (OCD) ac anabledau corfforol.

Ewch i [reading-well.org.uk/cymru](http://reading-well.org.uk/cymru) am ragor o wybodaeth.

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**  
james.davies.mp@parliament.uk  
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920  
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

# Meithrinfa Ddydd

## Little Acorns

Cafodd y plant hwyl fawr yn ystod wythnos y deinosoriaid: buon nhw'n gwneud mwd siocled, ffosilau toes halen, *collages* o blisgyn wyau, wyau deinosoriaid wedi'u rhewi (yr wyau, nid y deinosoriaid!), hetiau deinosoriaid, byd bach y deinosoriaid...a llawer rhagor!

Mae meithrinfa ddydd Little Acorns yn ofal plant hwyliog, cyfeillgar a fforddiadwy i blant o ddwy oed hyd at oed mynd i'r ysgol. Yn Ysgol Bryn Clwyd mae'r cyfan yn digwydd ac mae ar agor o 8yb. tan 5.15yp., o ddydd Llun tan ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol.

Mae'n derbyn talebau gofal plant ac mae'r cynllun Cynnig Gofal Plant Cymru (30 awr am ddim) ar waith yno. Mae croeso i chi alw i weld y feithrinfa a bydd plant yn cael sesiwn blasu AM DDIM!

Mae'r prisiau'n dechrau ar £10 – am ragor o wybodaeth ffoniwch 07776 796020 neu anfonwch e-bost at [littleacornsltd@outlook.com](mailto:littleacornsltd@outlook.com).

## Parciwch yn gall!

Er ein bod ni'n gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth i'n busnesau lleol, byddai'r gwerthfawrogiad yn fwy byth petai pobl yn ystyried ble maen nhw'n parcio. Er enghraifft, yn ddiweddar dewisodd gyrrwr (a oedd yn berffaith abl i gerdded) barcio'i gar gerllaw cornel, â blaen y car ar y llinellau melyn, er bod digon o le i barcio yn bellach oddi wrth y gornel. O ganlyniad, wrth gwrs, roedd yn rhaid i'r car a oedd yn mynd heibio iddo, fod ar ochr arall y ffordd wrth fynd heibio'r eglwys.

Tra oedd y car wedi parcio yno, aeth pedwar car heibio o fewn llai na munud, pedawr car a allai fod wedi cael damwain, er nad oedd bai arnyn nhw o gwbl.

Yn anffodus, mae parcio fel hyn i'w weld yn aml – felly, gair i gall!

# Tri lle

Dyma ddechrau cyfres newydd, yn gofyn i'n darllenwyr sôn am dri hoff lle, neu lleoedd sydd ag arwyddocâd arbennig iddyn nhw. Fe ddechreuwn gyda Margaret Williams, Rhiwbeyll Isaf.

## Cae Pen Banc Pant y Gynnau

Ar gae Pen y Banc, cae uchaf Pant y Gynnau, Bryn Saith Marchog, lle cefais fy magu mae yna adfeilion bwthyn gyda golygfeydd godidog ar draws Dyffryn Clwyd – o Graig Lelo yn y De i Moel Famau a Moel Fenlli yn y Gogledd. Fel un o saith o blant roeddwn yn hoffi dengyd am ryw awr ar brynhawn Sadwrn i fwynhau'r golygfeydd ac i gysidro fy nyfodol.

## Stone Town, Zanzibar

Mae Ynys Zanzibar rŵan yn rhan o Tansaïa, ond am ganrifoedd roedd yn cael ei rheoli gan Swltan yr Oman. Mae'r trigolion erbyn heddiw yn gymysgedd o waed Somalia, India a'r Dwyrain Canol. Pobol hamddenol a chroesawgar iawn, yn arbenigo mewn tyfu fanila, clof, sinamon a phupur du. Stone Town yw prifddinas yr ynys a dyna lle cafodd Farrokhs Bulsara (Freddie Mercury) ei fagu. Wedi ymweld â'i gartref dinod, gwahanol iawn oedd cael aros yn un o balasau'r Swltan a mwynhau bath ar y balconi, a wynebai Cefnfor India.

## Tsieina

Pleser pur oedd cael teithio gyda grŵp o ffrindiau – y rhan fwyaf ohonyn nhw o Ddyffryn Clwyd – ar wahoddiad y Swyddfa Amaeth i'r wlad enfawr yma yn 2001.

Un atgof am y daith yw hwnnw am ein bws yn croesi afon fechan dros bont reit simsan ar ein ffordd i bentref bychan yng nghefn gwlad Tsieina. Dwi'n cofio bod Gwilym Tŷ Newydd yn reit ansicr am gyflwr y bont ac mae sgrech Myfanwy yn atsain yn fy nghlustiau hyd heddiw pan gwmpodd y bws i'r afon. Trwy lwc, doedd y bws na'r teithwyr ddim gwaeth. Tra oeddem ni'n mwynhau pryd o fwyd blasus roedd degau o drigolion y pentre wedi llwyddo

cael y bws allan o'r dŵr yn llwyddiannus.

Hefyd fe gofias sefyll ar ben 'y Wal Fawr' pan oedd Byddin Tsieina allan ar hyfforddiant.

Roedd yna filoedd ar filoedd o filwyr ifanc yn gorymdeithio, gyda rhesi ohonynt yn ymestyn am bellter. Dyna pryd y sylweddolais go iawn beth oedd gwir faint y wlad a meddwl pa mor bwysig oedd hi i'n harweinwyr politicaidd sicrhau harmoni byd eang.

## City Travel & Tours

Local ABTA &  
ATOL Bonded  
Independent  
Travel Agent



Cruises, coach tours, family holidays,  
skiing trips, concert events, UK breaks  
– you name it, we can book it for you.

Karin, Lesley & Jackie have a combined  
90 years of travel experience, so call us  
for friendly travel advice.

We are based at Tweedmill, St Asaph  
Tel: 01745 730321  
Email: [citytravel@tarsc.net](mailto:citytravel@tarsc.net)

# Adolygu Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

## MAE ANGEN EICH HELP ARNOM – cwblhewch ein harolwg!

Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cynnwys ffermydd, coedwigoedd a rhostir, sy'n llawn bywyd gwyllt a hanes. Caiff ei werthfawrogi fel man i gerdded, beicio ac i fwynhau nifer o weithgareddau eraill. Hefyd yno gallwch werthfawrogi'r golygfeydd godidog, mwynhau'r awyr iach ac ymlacio o'r bywydau prysur rydym yn eu byw bob dydd.

Mae'r cynllun rheoli AHNE yn nodi pam mae'r dirwedd hon, sydd o bwys cenedlaethol, mor arbennig. Mae'r cynllun yn edrych ar y materion a'r cyfleoedd sy'n effeithio ar yr Ardal ac yn gosod cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Y cynllun presennol yw Cynllun Rheoli 2014–2019. Mae bellach yn 6 oed ac angen ei adolygu. Mae llawer wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn, a nifer o faterion a chyfleoedd yr ydym yn eu hwynebu yn awr heb eu hystyried pan ysgrifennwyd hwn.

Mae arnom angen adfywio'r cynllun rheoli i'n galluogi i fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu megis argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, diwygiad amaethyddol a COVID-19, i alluogi'r AHNE i barhau i ffynnu a darparu ar gyfer ei phreswylwyr a'i hymwelwyr. Bydd y cynllun rheoli nesaf yn darparu ar gyfer 2020–2025. Mae Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi comisiynu JBA Consulting i weithio ochr yn ochr â'r Bartneriaeth i ddatblygu cynllun cynhwysfawr a hygyrch.

Mae arnom angen eich help i sicrhau ein bod yn ystyried y materion a'r cyfleoedd sy'n bwysig yn eich barn chi wrth i ni baratoi'r cynllun. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y cynllun gorau posib i'n helpu i gadw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn lle braf i fyw ynddo, gweithio ynddo ac i ymweld â hi.

### 1. Cwblhau ein harolwg byr (5 munud) i

gasglu safbwyntiau ar sut mae pobl yn gwerthfawrogi ac ymgysylltu â'r AHNE a blaenoriaethau ar gyfer rheoli AHNE yn y dyfodol.

2. I roi ymateb mwy manwl o ran y materion a chyfleoedd yr ydych yn credu sydd angen mynd i'r afael â hwy yn y cynllun rheoli newydd AHNE, anfonwch **e-bost at y tîm prosiect JBA**.

### 3. Mynychu un o'n digwyddiadau.

Cyhoeddir y manylion yn fuan ar wefan AHNE ac ar y cyfryngau cymdeithasol:

Gwefan:

[clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk](http://clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk)

Facebook: @ClwydDeeAONB

Twitter: @Clwyd\_Deer\_AONB

Instagram: @Clwyd\_Deer\_AONB



Denbigh  
Building  
Plastics

SUPPLIERS & INSTALLERS

*U\_PVC windows, doors, rockdoors,  
secondary double glazing, sealed units.  
Conservatories, porches, garage doors,  
fascias, gutters, dry verge system,  
Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7  
Colomendy Industrial Estate  
Denbigh LL16 5TA  
01745 818849  
Open Mon—Fri 7.30am—5 pm  
Sat 9 am—12 pm

# Diwrnod Diabetes y Byd: y cysylltiad Cymreig

Mae Diwrnod Diabetes y Byd (*WDD*) yn cael ei ddathlu ar y 14eg o Dachwedd bob blwyddyn am mai dyma ddyddiad pen-blwydd Syr Frederick Banting, a ddarganfu inswlin ar y cyd â Charles Best yn 1922. Sefydlwyd *WDD* yn 1991 gan Ffederasiwn Diabetes Rhyngwladol a Sefydliad Iechyd y Byd mewn ymateb i bryderon ynglŷn â'r cynnydd mewn achosion o diabetes.

Mae yna gysylltiad Cymreig gydag un o'r cleifion cyntaf a dderbyniodd inswlin i drin diabetes. Mae'r erthygl hon yn mynd â ni ar daith bell o Ddyffryn Clwyd, yr holl ffordd bron i'r Tŷ Gwyn yn Washington, ac yn ôl i Ddyffryn Clwyd.

Ganwyd Jane Evans yn Nyffryn Clwyd yn 1788 (ni fu'n bosib lleoli ei man geni'n hollol). Priododd y Cymro, Nathan Hughes, yn Finsbury, Llundain. Ymfudodd un o'r plant, David Charles Hughes, pan oedd yn 23 oed, i'r Unol Daleithiau yn 1885. Daeth yn Weinidog y Bedyddwyr, ac yn ŵr hynod ddysgedig. Bu'n un o'r rhai oedd yn gyfrifol am gyfieithiad newydd o'r Beibl Saesneg. Daeth hwn, yn ei dro, yn Argraffiad Safonol yr Unol Daleithiau yn 1900.

Roedd gan David a'i wraig Mary, fab o'r enw Charles Evans Hughes. Daeth Charles yn llywodraethwr Efrog Newydd, gan drechu William Randolph Hearst o drwch blewyn.

Ym mis Tachwedd 1916, bu bron i'r UDA gael Arlywydd a fedrai siarad ychydig o Gymraeg. Roedd y mwyafrif o'r papurau newydd yn credu mai Charles Evans Hughes fyddai'r Arlywydd newydd, ac fe argraffwyd penawdau'n barod mewn rhai papurau newydd yn cyhoeddi hyn. Yn anffodus, Woodrow Wilson enillodd y ras i fod yn Arlywydd, felly ni chyrrhaeddodd yr iaith Gymraeg y Tŷ Gwyn. Yn fuan wedyn, cafodd Charles swydd fel Ysgrifennydd Tramor, a bu'n un o Brif Ustusiaid amlycaf y Goruchaf Lys.

Roedd gan Charles a'i wraig, Antoinette, bedwar o blant – Charles yr iau, Helen, Catherine ac Elizabeth. Yn Ebrill 1919, canfuwyd bod Elisabeth, 11 oed, yn dioddef o

diabetes; roedd hi wedi colli llawer o bwysau ac yn yfed llawer. Gwelodd meddyg enwog Elisabeth, a dywedodd wrthi 'heb driniaeth, mae disgwyliad oes rhywun ifanc â chlefyd melys yn llai na blwyddyn o gychwyn y symptomau'. Fe'i rhoddwyd ar 'ddiet newynu' – i ganfod y nifer lleia' o galoriau roedd eu hangen arni i oroesi.

Rhwng 1921 a 1922, llwyddodd tîm o Brifysgol Toronto i ynysu'r hormon inswlin – yr hormon na all pobl efo Diabetes Teip 1 ei gynhyrchu eu hunain. Arweiniodd y darganfyddiad hwn at gael doctoriaid a chleifion yn eu miloedd yn holi a oedd posib dod i Doronto am driniaeth. Cafodd y mwyafrif ohonynt eu siomi, gan nad oedd digon o inswlin ar gael yr amser hynny. Ond un o'r rhai oedd yn ddigon lwcus oedd Elizabeth Evans Hughes. Fis Awst 1922, hi oedd un o'r plant cyntaf i gael inswlin fel rhan o'i thriniaeth. Gweddnewidiodd hwn ei bywyd hi bron ar unwaith.

Cafodd Elizabeth Evans Hughes oes hir a llwyddiannus iawn. Pan fu farw yn 1981, roedd diabetes arni ers dros 61 mlynedd, ac roedd hi wedi cael tua 40,000 pigiad o inswlin.

Y rhai cyntaf i gynhyrchu inswlin i drin cleifion oedd Labordai Connaught yn Nhoronto a chwmni Eli Lilly yn Indianapolis. Yn 1995, comisiynodd Cwmni Eli Lilly y Deyrnas Unedig nifer o fedalau i'w cyflwyno i gleifion o Gymru a oedd yn byw gyda diabetes. Anrhydeddir Elizabeth Evans Hughes gyda'i henw ar y fedal gan mai hi oedd un o'r plant cyntaf i dderbyn inswlin yn 1922, ac i ddathlu ei gwreiddiau Cymreig.

Dathlwyd Diwrnod Plant gyda Diabetes Teip 1 yn y Senedd ar Chwefror 3 eleni i godi ymwybyddiaeth o'r symptomau cynnar, er mwyn trin plant cyn iddynt fynd yn sâl iawn. Noddwyd digwyddiad y Senedd gan Jayne Bryant, AS, i ddathlu llwyddianau plant Cymru sy'n byw efo'r cyflwr.

Ar ddiwrnod y dathlu yn y Senedd, cyflwynodd ŵyr Elizabeth Evans Hughes, sef Yr Athro David W Denning, Prifysgol



# Diwrnod Diabetes y Byd – y cysylltiad Cymreig: parhad

Manceinion, fedal Elizabeth Evans Hughes i bobl sy’n byw gyda’r cyflwr yng Nghymru.

Ac erbyn hyn mae’r hanes wedi dod yn ôl at ei wreiddiau. Mae’r Athro David W Denning, (gor-or-or-wyr i Jane Evans) wedi ymddeol o’i waith clinigol ac mae ganddo dŷ yn Nyffryn Clwyd. Mae ei wraig Merian yn dod yn wreiddiol o Sir Ddinbych.

Os oes rhywun yn gwybod am unigolion sy’n ysbrydoliaeth i bobl eraill â diabetes, ac a fyddai’n haeddu’r fedal hon, cysylltwch â Diabetes UK Cymru.

## Llandyrnog & Llangwyfan: Y Rhyfel Mawr 1914–18 The Great War

Mae’r llyfr cwbl ddwyieithog yn cynnwys llawer o ddarluniau mewn lliw a du a gwyn ac yn dweud stori bersonol y 21 o ddynion a bechgyn â chysylltiad â’r ardal a fu farw o ganlyniad i’r Rhyfel Mawr. Mae eu henwau ar y gofgolofn ger Eglwys St Tyrnog, Llandyrnog. Mae’r llyfr yn rhoi darlun o fywyd y pentref yn ystod y cyfnod, yn cynnwys mapiau o’r llefydd a oedd yn gysylltiedig â’r dynion, yn ogystal â rhoi braslun byr o hanes y rhyfel.

Mae’r llyfr ar gael am £14 o swyddfa bost y pentref, Siop Elfair, llyfrgelloedd Dinbych a Rhuthun neu anfonwch e-bost at [llangwyfanhistory@hotmail.com](mailto:llangwyfanhistory@hotmail.com).

# Digwyddiadau mis Tachwedd ar hyd y blynyddoedd

- ◇ 1536 – daeth Deddf Uno 1536 i rym
- ◇ 1948 – agorwyd Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan i’r cyhoedd
- ◇ 1982 – S4C yn dechrau darlledu
- ◇ 1953 – Bu farw’r bardd Dylan Thomas
- ◇ 1294 – cipiodd y Cymry Gastell Dinbych oddi wrth y Saeson, a’i ddal am 7 mis, fel rhan o Wrthryfel Cymreig 1294–95
- ◇ 1969 – datgysylltodd Undeb Gwyddbwyll Cymru oddi wrth Ffederasiwn Gwyddbwyll Prydain. Arwyddair yr undeb yw ‘Ymosodiad Dewr; Amddiffyniad Sicr’
- ◇ 1956 – nifer o Gymry yn ymdeithio drwy strydoedd Lerpwl er mwyn ceisio atal boddi Capel Celyn
- ◇ 1805 – agorwyd Traphont Pontcysyllte, sy’n dwyn Camlas Llangollen dros ddyffryn Afon Dyfrdwy
- ◇ 1898 – ganwyd C. S. Lewis, awdur; ŵyr y Cymro Richard Lewis, ffermwr o Gaergwrle
- ◇ 1973 – ganwyd Ryan Giggs, rheolwr tîm pêl-droed Cymru

## Tambo’s Total Care Garden Maintenance

Gardening

Fencing

Tree Work

Turfing

Hedges

Logging

Pressure Washing

Contact Oli Williams

Mob: 07501022017

Email: [ohwwilliams75@gmail.com](mailto:ohwwilliams75@gmail.com)

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Hydref y Cyngor Cymuned

- Mae Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi cadarnhau iddo gael y cais i osod mainc yng Nghae Nant a'i fod yn prosesu'r cais.
- Mae'r Cyngor wedi cael dau bris i uwchraddio'r offer chwarae yng Nghae Nant a bydd yn gofyn am bris arall eto.
- Mae'r Ystafelloedd Coco wedi cael côt o baent ac mae'r Cyngor Cymuned yn chwilio am drydydd pris am garped newydd.
- Mae CSDd wedi cadarnhau y bydd yr arwyddion 30mya yn cael eu symud yn sgil y datblygiad gerllaw Maes Llan. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor yn gofyn i'r datblygwr wneud unrhyw waith i'r ffordd oddi ar y safle, yn unol â chais y Cyngor Cymuned a oedd yn ymateb i bryderon trigolion lleol.
- Mae perchennog y tir wedi ailosod y gatiau ar draws y llwybr marchogaeth rhwng Pen y Bryn, Llangwyfan a maes parcio Moel Famau.
- Mae CSDd wedi trwsio'r gamfa ger Pentrefelin (llwybr 29), felly mae'n haws mynd at y llwybr rŵan.
- Roedd aelod o'r cyhoedd wedi manteisio ar ei hawl i fod yn bresennol yn y cyfarfod yn rhithiol ac i fynegi barn y rheini a oedd yn gwrthwynebu ail-ddosbarthu llwybr 34/36 o Benisa'r Waen i Dŷ Gwyn fel cilffordd gyfyngedig. Mynegwyd pryderon am y modd y deliodd y Cyngor Cymuned â'r mater yn 2006 ac y byddai'r person hwnnw yn gwrthwynebu'r cais presennol a oedd wedi'i gyflwyno i CSDd yn ddiweddar. Hyd yn hyn, nid yw'r Cyngor Cymuned wedi cael y cais yn ffurfiol i'w ystyried – dim ond copi er gwybodaeth yn unig yn uniongyrchol gan y rheini'n sy'n gwneud y cais. Bydd y mater yn cael ei drafod yn fanwl pan fydd wedi cael y cais gan CSDd maes o law.
- Mae MHC wedi cadarnhau y bydd holl aelodau'r staff yn cael eu hatgoffa i gael gwared ar eitemau offer gwarchod personol yn briodol. Mae nifer o fasgiau wedi'u gwaredu'n amhriodol yn yr ardal, er bod y Cyngor Cymuned yn ymwybodol iawn y gallai eraill fod yn gyfrifol am hyn.
- Cafwyd Cais Cynllunio i'w ystyried – caniatâd adeilad rhestredig i addasu ysgubor ym Mhlas Ashpool i fod yn llety gwyliau.
- Mynegwyd pryderon eto am gŵn yn baeddu Cae Nant. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gofyn i CSDd drefnu ymweliadau ar hap gan y warden cŵn. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Sir yn gyndyn o wneud hyn gan nad yw'n berchen ar Gae Nant. Felly, mae'r Cyngor Cymuned yn gofyn i bawb fod yn wyladwrus a rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol i'r clerc neu i'w aelodau.
- Mae'r Plismon Cymunedol Geraint Jones wedi adolygu ffigyrau troseddau'r ardal ac wedi cadarnhau mai dim ond un digwyddiad a gofnodwyd ers mis Mehefin – ymgais i dorri i mewn i sied arddio.
- Mae wyneb y ffordd o gwmpas groesffordd Groes Efa wedi'i drwsio i safon dderbyniol.
- Mae hi'n gyfnod cynaeafu india-corn ac mae'r tirberchnogion a CSDd wedi bod yn cydweithio i ofalu bod y gwaith yn tarfu cyn lleied ag sy'n bosib ar drigolion ac i gadw'r ffyrdd mor lân â phosibl.
- Cytunwyd i drefnu peintio gatiau Cae Nant.

## Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych  
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan  
i oriau swyddfa — 0300 123 3068  
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)  
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345